Cardiff & Vale of Glamorgan
Pension Fund
Cronfa Bensiwn
Caerdydd a Bro Morgannwg

Datganiad Cyfrifon 2019/20

Cynnwys

Adroddiad Naratif	**2**
Datganiad Actiwaraidd	**4**
Datganiad o Gyfrifoldebau	**8**
Adroddiad Archwilio	**9**
Cyfrif y Gronfa	**12**
Datganiad Asedau Net	**13**
Nodiadau i'r Cyfrifon	**14**
Geirfa	**31**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /This document is available in English

Adroddiad Naratif

Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Cyngor Caerdydd) yw Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) sydd ei hun yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) Cymru a Lloegr. Y CPLlL yw'r cynllun pensiwn galwedigaethol statudol ar gyfer holl gyflogeion llywodraeth leol (ac eithrio athrawon) a Llywodraeth y DU sy'n pennu'r rheoliadau. Ymgymerir â chyfrifoldebau'r Cyngor fel rheolwr y Gronfa drwy'r Pwyllgor Pensiynau sy'n goruchwylio strategaethau a pholisïau'r Gronfa. Mae rheolaeth weithredol o'r Gronfa wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Mae'r Bwrdd Pensiynau Lleol yn cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r CPLlL a gofynion y Rheolydd Pensiynau ac i sicrhau gweinyddu effeithiol ac effeithlon y cynllun.

Cynyddodd nifer yr aelodau sy'n cyfrannu tua 1,500 yn ystod y flwyddyn i ychydig o dan 18,000, ac mae nifer y pensiynau sy'n cael eu talu yn parhau i gynyddu ac erbyn hyn mae bron i 12,000 o bensiynwyr a dibynyddion yn derbyn budd-daliadau o'r Gronfa. Yn ogystal, bu ychydig o gynnydd yn nifer y pensiynwyr a dibynyddion gohiriedig, sydd bellach ychydig o dan 14,000.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd teirblwydd y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 yn ystod y flwyddyn. Gwellodd y gymhareb ariannu o 85% i 96%. n Bu hyn yn bennaf oherwydd y twf mewn asedau cronfeydd dros y tair blynedd, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd mewn rhwymedigaethau oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol. Gostyngodd y diffyg ariannu cyffredinol o £300m i £95m, a phennwyd cyfraniadau cyflogeion am y tair blynedd nesaf â'r nod o adennill diffygion o fewn 17 flynedd. Mae'r cyfraniadau'n cynnwys lwfans ar gyfer rhwymedigaethau ychwanegol posibl yn deillio o ddyfarniad 'McCloud', a ddyfarnodd fod trefniadau diogelu trosiannol ar gyfer rhai cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus yn anghyfreithlon. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried newidiadau i drefniadau diogelu holl gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

DIsgynodd asedau'r Gronfa Bensiynau 6.9% yn ystod 2019/20, o £2.178 biliwn i £2.028 biliwn. Er gwaethaf cyfnodau byr o gyfnewidioldeb, gwnaeth y marchnadoedd buddsoddi enillion cyson yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Newidiodd yr ymdeimlad yn y farchnad yn ddramatig yn ystod y chwarter olaf mewn ymateb i ymlediad Covid-19, gan arwain at golledion ar draws pob rhanbarth a sector ar raddfa nas gwelwyd ers yr argyfwng ariannol byd-eang yn 2008/09. Yr adenilliad am y flwyddyn oedd -7.4% yn erbyn elw meincnod o -7.2%. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai cipolwg ar y sefyllfa yw hon ar 31 Mawrth 2020. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gynllun budd diffiniedig, sy'n golygu nad yw buddiannau aelodau'n gysylltiedig â pherfformiad y farchnad stoc. Mae'r Gronfa Bensiwn yn fuddsoddwr hirdymor a gall aelodau fod yn sicr bod cyfraniadau'n cael eu hadolygu fel rhan o'r prisiad bob tair blynedd.

Parhaodd wyth awdurdod y gronfa CPLlL yng Nghymru i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn yn natblygiad Partneriaeth Pensiynau Cymru (PPC) a gafodd ei sefydlu yn 2017 er mwyn goruchwylio cronni buddsoddiadau'r cronfeydd.– Yn dilyn lansio'r ddwy gronfa gyfun gyntaf ym mis Ionawr 2019, lansiwyd trydydd cronfa – Cronfa Cyfleoedd Ecwitïau'r DU – ym mis Medi. Cymerodd Caerdydd ran yn y lansiad hwn gyda throsglwyddiad o £217,000,000 (gwerth ar y dyddiad trosglwyddo) o'i bortffolios ecwiti yn y DU. Caiff rhagor o gronfeydd eu lansio yn 2020/21 gan gynnwys pum cronfa Incwm Sefydlog. Yn ystod y flwyddyn lansiodd PCC ei wefan ei hun hefyd ac mae wedi datblygu nifer o ddogfennau polisi strategol.

Ym mis Gorffennaf 2019 cytunodd Pwyllgor Pensiynau Caerdydd ddyrannu 10% o fuddsoddiadau'r gronfa i Gronfa Carbon Isel yn ymateb i bryderon y cyngor a rhanddeiliaid eraill ynghylch y newid yn yr hinsawdd. Gweithredwyd y penderfyniad hwn ym mis Chwefror 2020 gyda throsglwyddiad o £235,000,000 (gwerth ar y dyddiad trosglwyddo) i'r Gronfa Olrhain Carbon Isel a reolir gan BlackRock, rheolwr buddsoddiadau

goddefol y Gronfa. Caiff effaith y buddsoddiad hwn ei monitro'n ofalus a chaiff opsiynau ar gyfer camau pellach eu hystyried yn ystod 2020/21.

Yn ystod 2019/20 cafodd Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ei chynnwys mewn adolygiad llywodraethu peilot gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ar chwe chronfa yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn dan God Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau sy'n ymdrin â llywodraethu a gweinyddu Cynlluniau'r Sector Cyhoeddus. Er y dewiswyd y gronfa ar hap, fe'i gwnaed yn glir gan y Rheoleiddiwr eu bod yn cadw'r hawl i gynnal adolygiad manwl pe deuent o hyd i unrhyw feysydd a oedd yn codi pryder. Daeth yr adolygiad i ben ym mis Ebrill 2019 ac roedd y rheoleiddiwr yn fodlon bod y gronfa yn cael ei rheoli'n dda ac nad oeddent yn nodi unrhyw feysydd ar gyfer adolygiad manwl. Gwnaethant nifer o argymhellion a adroddwyd wrth y Pwyllgor Pensiynau ym mis Gorffennaf 2019 a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion Llywodraethu ar gyfer y Gronfa. Mae'r rhain wedi'u derbyn ac mae nifer eisoes wedi'u rhoi ar waith, megis cyhoeddi cofnodion y Bwrdd Pensiynau a mabwysiadu polisi cwyno ffurfiol. Yn ogystal â'r arolwg hwn, penderfynwyd hefyd geisio sicrwydd bod y Pensiynau a gâi eu talu yn gywir a chomisiynwyd ymarfer i adolygu a nodi unrhyw bosibilrwydd y bu tandaliadau neu ordaliadau. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir ei orffen erbyn mis Hydref 2020. Ymdrinnir ag unrhyw dandaliadau neu or-daliadau yn unol â'r polisi tan neu or-dalu a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau.

Mae amcanion allweddol y Gronfa’n dal i gynnig gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i dros 43,000 o gyflogeion sy’n cyfrannu iddi, pensiynwyr ac aelodau gohiriedig, ac i leihau’r baich ariannol ar gyflogwyr sy’n cyfrannu yn yr hirdymor.

Christopher Lee
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Datganiad Actiwaraidd

Cyflwyniad

Yn ôl Rheoliadau'r Cynllun rhaid cynnal prisiant actiwaraidd llawn bob tair blynedd. Diben hyn yw sicrhau y gall Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro (y Gronfa) gyflawni ei rhwymedigaethau i gyfranwyr hen a newydd ac i adolygu cyfraddau cyfrannu cyflogwyr. Cwblhawyd yr archwiliad actiwaraidd llawn diwethaf i sefyllfa ariannol y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 gan Aon, yn unol â Rheoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Sefyllfa Actiwaraidd

1. Dangosodd y prisiant ar 31 Mawrth 2019 fod cymhareb ariannu'r Gronfa wedi gwella ers y prisiant diwethaf, gyda gwerth marchnad asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2019 (£2.178 biliwn) yn cwmpasu 96% o rwymedigaethau, sy'n galluogi, yn achos aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014, i gyfranwyr cyfredol y Gronfa ar hyn o bryd gynyddu tâl pensiynadwy yn y dyfodol.

2. Dangosodd y prisiant hefyd mai lefel gyfartalog y cyfraniadau yr oedd angen i gyflogwyr cyfranogol eu talu o 1 Ebrill 2020 oedd:

- 18.8% o dâl pensiynadwy. Dyma'r gyfradd a gyfrifwyd fel digonol, ynghyd â chyfraniadau a dalwyd gan aelodau, i dalu rhwymedigaethau sy'n deillio o wasanaethu ar ôl y dyddiad prisio (y brif gyfradd).

A

- lwfans o 0.9% o dâl ar gyfer McCloud a rheoli costau – gweler paragraff 9 isod,

A

- Symiau ariannol i adfer yr asedau at 100% o'r rhwymedigaethau o ran gwasanaeth cyn y dyddiad prisio dros gyfnod adennill o 17 o flynyddoedd o 1 Ebrill 2020, sy'n cyfateb i 1.8% o dâl pensiynadwy (neu £5.7miliwn yn 2020/21, ac yn cynyddu gan 3.1% y flwyddyn wedi hynny), sef yn cynnwys y gyfradd eilaidd ynghyd â'r lwfans uchod.

3. Yn ymarferol, caiff sefyllfa pob Cyflogwr unigol neu grŵp o Gyflogwyr ei hasesu ar wahân a phennir y cyfraniadau yn adroddiad Aon, 30 Mawrth 2020 (yr "adroddiad prisio actiwaraidd"). Yn ogystal â'r cyfraniadau uchod, bydd cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i dalu rhwymedigaethau ychwanegol sy'n deillio o ymddeol yn gynnar (heblaw am ymddeol oherwydd salwch).

Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y cyfraniadau sy'n daladwy gan bob cyflogwr dros y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2023 yn:

Blwyddyn o 1 Ebrill	**% o dâl pensiynadwy**	**Ynghyd â chyfanswm y cyfraniad swm (£M)**
2020	20.9%	1.6
2021	20.9%	1.8
2022	20.9%	2.0

4. Roedd y cynllun ariannu a fabwysiadwyd wrth asesu cyfraniadau pob cyflogwr yn unol â'r Datganiad Strategaeth Gyllido. Mabwysiadwyd gwahanol ddulliau gweithredu o ran cyfrifo'r gyfradd cyfraniad sylfaenol, cynnydd mewn cyfraniadau cyn gadael a chyfnodau adfer cyflogwyr unigol fel y cytunwyd gyda'r Awdurdod Gweinyddu a'u hadlewyrchu yn y Datganiad Strategaeth Ariannu, gan adlewyrchu amgylchiadau'r cyflogwyr.

5. Cynhaliwyd y prisiant wrth ddefnyddio'r dull actiwaraidd uned a ragfynegir i'r rhan fwyaf o gyflogwyr a'r prif ragdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu'r targed ariannu a'r cyfraddau cyfrannu oedd fel a ganlyn:

Cyfradd is ar gyfer cyfnodau gwasanaeth	
Cyflogwyr y corff cofrestredig*	4.3% y flwyddyn
Cyflogwyr Amddifad Parhaus	4.3% y flwyddyn
Targed ariannu risg isel	1.3% y flwyddyn
Cyfradd is ar gyfer cyfnodau gadael gwasanaeth	
Cyflogwyr y corff cofrestredig*	4.3% y flwyddyn
Cyflogwyr Amddifad Parhaus	1.6% y flwyddyn
Targed ariannu risg isel	1.3% y flwyddyn
Cyfradd cynnydd tâl	**3.1% y flwyddyn**
Cyfradd cynnydd cyfrifon pensiwn	**2.1% y flwyddyn**
Cyfradd cynnydd i bensiynau wrth eu talu (yn fwy na'r Pensiwn Lleiafswm Gwarantedig)	**2.1% y flwyddyn**

** Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt y corff a drefnwyd hefyd ar gyfer cyflogwyr y bydd eu rhwymedigaethau yn cael eu cynnwys ar ôl gadael gan gorff cofrestredig.*

Hefyd, y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau a amddifadwyd eisoes (h.y. lle nad oes cyflogwr y cynllun yn gyfrifol am ariannu'r rhwymedigaethau ac mae'r cyflogwr wedi gadael y Gronfa) oedd 1.3% y flwyddyn.

Prisiwyd yr asedau ar werth y farchnad.

Nodwyd manylion pellach o'r rhagdybiaethau a fabwysiadwyd i'w prisio, gan gynnwys y rhagdybiaethau demograffig yn yr adroddiad prisio actiwaraidd.

6. Y rhagdybiaeth ddemograffig allweddol oedd y lwfans hirhoedledd. Roedd rhagfynegiadau marwolaethau ôl-ymddeol a fabwysiadwyd ar gyfer y prisiant actiwaraidd yn unol â thablau marwolaethau S2N y cynllun pensiwn hunanweinyddol safonol (SAPS) gyda ffactorau graddio priodol yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyfradd marwolaethau pensiynwyr y Gronfa a dadansoddiad cod post aelodau'r Gronfa gan ddefnyddio model hirhoedledd Demographic Horizons™ Aon gan gynnwys lwfans gwelliannau'n seiliedig ar Ragfynegiadau Craidd Archwiliadau Marwolaethau Parhaus (CMI) 2018 gda s_k 7.5 a pharametr A yn 0.0 gan ragdybio cyfradd flynyddol hirdymor o welliant yn y cyfraddau marwolaeth gan 1.5% y flwyddyn. Cyfartaledd y disgwyliad oes yn y dyfodol yn 65 oed (ar gyfer ymddeoliadau pobl ag iechyd arferol) oedd:

	Dynion	Menywod
Pensiynwyr 65 oed ar y dyddiad prisio	22.1	24.5
Pensiynwyr y dyfodol yn 45 oed ar y dyddiad prisio	23.1	25.9

7. Mae canlyniadau'r prisiad a grynhoir ym mharagraffau 1 a 2 uchod yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol a lefelau'r farchnad ar y dyddiad prisio, 31 Mawrth 2019. Fel y cyfryw, nid yw'r canlyniadau'n caniatáu

ar gyfer newidiadau sydd wedi digwydd ers y dyddiad prisio, er ein bod yn gwneud sylwadau ar newidiadau yn amodau'r farchnad hyd at 31 Mawrth 2020 ym mharagraff 10 isod.

8. Llofnodwyd yr adroddiad prisio actiwaraidd ffurfiol a'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n nodi cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2023 ar 30 Mawrth 2020. Ac eithrio fel y cytunwyd neu fel arall a ganiateir neu sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, adolygir cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr adeg prisiad actiwaraidd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2022 yn unol â rheoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

9. Mae nifer o faterion o ansicrwydd ynghylch manteision y Cynllun ac felly mae rhwymedigaethau:

- **Cynnydd o ran Lleiafswm Pensiwn a Warentir (GMP):**
  Mae prisiad 2019 yn caniatáu ar gyfer ymestyn 'datrysiad dros dro' i gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus dalu cynnydd chwyddiant llawn ar GMP ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (SPA) rhwng 6 Ebrill 2016 a 5 Ebrill 2021. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn dal i ymchwilio i amrywiol opsiynau, gan gynnwys trosi GMP yn fuddion Cynllun, er mwyn cyflawni cydraddoli ar gyfer GMP fel y bu’n ofynnol gan ddyfarniad yr Uchel Lys yn achos Banc Lloyds.

  Nid yw canlyniadau prisiad 2019 yn caniatáu ar gyfer effaith ymestyn y datrysiad dros dro hwn am gyfnod amhenodol, gan ddarparu codiadau pensiwn llawn ar GMP i aelodau sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2021 na throsi GMP yn fuddion Cynllun. Yn seiliedig ar amcan gyfrifiadau, ar lefel cronfa gyfan, mae effaith darparu codiadau pensiwn llawn ar GMP ar gyfer yr aelodau sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2021 yn gynnydd mewn rhwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol gan rhwng 0.1% a 0.2% ar draws y Gronfa yn gyffredinol.

- **Proses Rheoli Costau a barn McCloud:**

  Dangosodd canlyniadau cychwynnol proses rheoli costau Bwrdd Ymgynghori’r Cynllun y byddai gofyn am welliannau buddion / lleihad yng nghyfraniadau aelodau yn cyfateb i 0.9% o’r tâl. Fodd bynnag, gohiriwyd y broses rheoli costau yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl bod y trefniadau trosiannol yng nghynllun Pensiwn y Barnwyr (McCloud) a chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Sargeant) yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai'r dyfarniad yn cael ei drin fel un sy'n berthnasol i bob cynllun gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys CPLIL (lle'r oedd y trefniadau trosiannol ar ffurf sylfaen cyflog terfynol) a disgwylir ymgynghoriad ar newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ym mis Mehefin 2020.

  Mae cyfraniadau'r cyflogwr a ardystiwyd o 1 Ebrill 2020 fel rhan o brisiad 2019 yn cynnwys lwfans o 0.9% o dâl mewn perthynas â'r costau ychwanegol posibl yn dilyn y broses o ddyfarnu / rheoli costau McCloud. Roedd hon yn ymagwedd symlach nad oedd yn ystyried gwahanol broffiliau aelodaeth cyflogwyr na thargedau ariannu a gall fod yn fwy neu'n llai na'r gost a aseswyd ar ôl cytuno ar y newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar union natur y cyflog terfynol newydd, yr aelodau o ran cwmpas, a sut mae hyn yn effeithio ar y broses rheoli costau.

10. Ers y dyddiad prisio, ni chyrhaeddodd enillion asedau'r Gronfa yr enillion tybiedig o tua 4.3% dros y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2020, ar ei ben ei hun gan arwain at leihad yn y lefel ariannu. Yn ogystal, mae disgwyliadau is o ran adenillion asedau yn y dyfodol a gostyngiadau mewn arenillion gilt wedi arwain at ostyngiad yn y cyfraddau disgownt, gan leihau lefelau cyllid ymhellach a chynyddu'r gyfradd sylfaenol. Bydd yr Actiwari, ar y cyd â'r Awdurdod Gweinyddu, yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd a bydd yr awdurdod gweinyddu yn cymryd camau pan fydd yn barnu bod hynny'n angenrheidiol.

11. Lluniwyd y Datganiad hwn gan Actiwari presennol y Gronfa, Aon, i’w gynnwys yng nghyfrifon y Gronfa. Mae'r Datganiad hwn yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd a gynhaliwyd ar

31 Mawrth 2019. Mae'r prisiad yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa ariannu ar ddyddiad y prisiad ac fe'i defnyddir i asesu lefel y cyfraniadau bydd eu hangen yn y dyfodol.

Ni ellir ystyried y datganiad hwn heb gyfeirio at yr adroddiad prisio actiwaraidd ffurfiol sy'n manylu'n llawn ar gyd-destun a chyfyngiadau'r prisiant actiwaraidd, yn cynnwys unrhyw effaith Covid-19.

Nid yw Aon yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth i unrhyw barti ac eithrio ein cleient, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, o ran y Datganiad hwn.

12. Mae'r adroddiad ar y prisiant actiwaraidd ar 31 Mawrth 2019 ar gael ar wefan y Gronfa yn y cyfeiriad canlynol:

https://www.cardiffandvalepensionfund.org.uk/cy/amdanom-ni/adroddiadau-gwerthuso-actiwaraidd/

Aon Hewitt Limited

Mehefin 2020

Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiadau Ariannol

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, mae gofyn i Gyngor Caerdydd:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn gywir i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn 2019/20, y swyddog hwnnw oedd Christopher Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau;
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

Y Cynghorydd Daniel De'Ath **Dyddiad: 22 Hydref 2020**
Arglwydd Faer

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (sydd yn swydd statudol y Swyddog Adran 151) sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol y Cyngor yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20 (y Cod).

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson, heblaw os yw newidiadau polisi wedi'u nodi yn y cyfrifon hyn;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- chydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir diweddar; a
- chymryd camau rhesymol at atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra.

Tystysgrif y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn rhoi golwg wir a theg o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2020.

Christopher Lee **Dyddiad: 22 Hydref 2020**
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys cyfrif y gronfa, datganiad yr asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac o swm a rheolaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20.

Sail dros farn

Cynhelais f'archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn fy adroddiad, yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

Pwyslais ar fater - effeithiau pandemig COVID-19 ar brisio Cronfeydd Eiddo Cyfunol

Rwyf yn tynnu sylw at Nodyn 4 'Rhagdybiaethau a wnaed am y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill o ansicrwydd amcangyfrif' i'r datganiadau ariannol, sy'n disgrifio cymalau ansicrwydd prisio sylweddol yn adroddiadau prisio rheolwyr cronfeydd eiddo ar gyfer Cronfeydd Eiddo Cyfunol, sy'n codi o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19.

Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn gofyn imi adrodd wrthych yn eu cylch, lle:

- nad yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd, a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Naratif. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad.

Gyda golwg ar f'archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn canfod pethau o bwys sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig, a nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad neu'n sylweddol anghyson

â′r wybodaeth honno. Os deuaf yn ymwybodol o′r hyn sy′n ymddangos yn gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried eu goblygiadau ar gyfer f′adroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae′r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Naratif am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â′r datganiadau ariannol ac mae′r adroddiad blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Materion yr adroddaf amdanynt fel eithriadau

Yng ngoleuni′r wybodaeth a′r ddealltwriaeth o′r gronfa bensiwn a′i hamgylchedd a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Naratif.

Nid oes gennyf ddim i′w adrodd gyda golwg ar y materion canlynol, y byddwn yn adrodd amdanynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi′u cadw;
- nad yw′r datganiadau ariannol yn cytuno â′r cofnodion cyfrifyddu a′r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a′r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer f′archwiliad.

Tystysgrif cwblhau’r archwiliad

Rwyf yn ardystio fy mod wedi cwblhau archwiliad cyfrifon Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau’r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y datganiadau ariannol, mae′r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi′r datganiadau ariannol, sy′n rhoi darlun cywir a theg, ac mae′n gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol y mae′r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy ′n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi′r datganiadau ariannol, mae′r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu′r gronfa bensiwn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo′n berthnasol, faterion sy′n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol onid ystyrir ei bod yn amhriodol.

Cyfrifoldebau’r archwilydd dros archwilio’r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw caffael sicrwydd rhesymol p′un a yw′r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd neu beidio o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi adroddiad archwilydd sy′n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw′n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd un yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu o gamgymeriad ac fe′u hystyrir o bwys os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda′i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau′r archwilydd dros archwilio′r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae′r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 26 Hydref 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cyfrif y Gronfa

2018/19		Sylwch	2019/20
£000			**£000**
	Cysylltiadau gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa		
	Cyfraniadau		
(69,768)	Gan gyflogwyr	7	(75,323)
(18,626)	Gan gyflogeion	7	(19,522)
(5,168)	Grŵp yn trosglwyddo o gynlluniau neu gronfeydd eraill		0
(6,719)	Unigolyn yn trosglwyddo o gynlluniau neu gronfeydd eraill		(8,864)
(2,825)	Incwm arall (taliadau wedi'u cyfalafu a llog ar ariannu diffyg)		(3,452)
(103,106)			**(107,161)**
	Buddion Taladwy		
65,790	Pensiynau	8	70,038
18,134	Cyfandaliadau, grantiau a thaliadau eraill	8	19,166
	Taliadau i ac oherwydd y sawl sy'n gadael		
188	Ad-daliadau cyfraniadau		274
67	Grŵp yn trosglwyddo i gynlluniau neu gronfeydd eraill		0
7,397	Unigolyn yn trosglwyddo i gynlluniau neu gronfeydd eraill		6,621
91,576			**96,099**
(11,530)	**(Ychwanegiadau)/diddymiadau net o drafodaethau gydag aelodau'r Gronfa**		**(11,062)**
8,083	Treuliau rheoli	9	8,429
(3,447)	**(Ychwanegiadau)/diddymiadau net, gan gynnwys treuliau rheoli'r gronfa**		**(2,633)**
	Elw ar Fuddsoddiadau		
(27,498)	Incwm buddsoddi	10	(27,397)
(80,299)	Newid yng ngwerth marchnad buddsoddiadau	11a	180,253
(107,797)	**Elw net ar fuddsoddiadau**		**152,856**
(111,244)	**(Cynnydd)/gostyngiad net yn y Gronfa yn ystod y flwyddyn**		**150,223**
(	Asedau net y cynllun wrth agor		(2,177,828)
(2,177,828)	**Asedau net y cynllun wrth gau**		**(2,027,605)**

Datganiad Asedau Net

2018/19		Sylwch	2019/20
£000			**£000**
2,112,376	Buddsoddiadau ar werth y farchnad	11	1,975,769
51,029	Arian parod (gan gynnwys cdeilliadau) ac enillion buddsoddi sy'n ddyledus	11	38,457
2,163,405	**Cyfanswm y Buddsoddiad**		**2,014,226**
42	Treth y DU a thramor		71
4,845	Cyfraniadau sy'n ddyledus gan gyflogwyr ac ariannu diffyg		4,599
443	Dyledwyr amrywiol		839
2,177	Costau straen pensiwn sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		1,642
7,507	**Cyfanswm asedau cyfredol**		**7,151**
6,947	Ariannu diffyg (cyn-gyflogwyr)		4,654
2,560	Costau straen pensiwn sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn		3,688
9,507	**Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol**		**8,342**
(426)	Budd-daliadau heb eu talu		(163)
(1,358)	Credydwyr amrywiol		(1,214)
(105)	Darpariaeth - grantiau marwolaeth	19	0
(1,889)	**Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol**		(1,377)
(702)	Darpariaeth - grantiau marwolaeth	19	(737)
(702)	**Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol**		**(737)**
2,177,828	**Asedau net y cynllun**		**2,027,605**

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Sail Paratoi

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, 2019/20 sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y cynllun ac yn delio ag asedau net yr Awdurdod sy'n gweinyddu. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn.

Cafodd y cyfrifon eu paratoi ar sail ystyriaeth barhaus.

2. Crynodeb o Bolisïau Cyfrifyddu Arwyddocaol

Polisïau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto
Ar ddyddiad y fantolen, ni chafodd unrhyw safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto eu nodi.

Incwm a Gwariant
Ystyriwyd incwm bondiau a difidendau ar y dyddiad talu contract. Credydir incwm eiddo ac ecwiti preifat wrth eu derbyn.
Nid yw'r Gronfa'n ystyried unrhyw fuddion sy'n daladwy neu sy'n ddyledus o ran aelodau sydd am drosglwyddo o un cynllun i'r llall nes i asedau (naill ai buddsoddiadau arian parod neu fath arall) gael eu derbyn gan y cynllun sy'n eu derbyn.
Cyfrifwyd am yr holl incwm a gwariant arall ar sail gronnol, ac eithrio'r rhwymedigaeth i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol, a gafodd ei ddatgelu ar wahân o fewn y nodiadau i'r cyfrifon.

Costau caffael buddsoddiadau
Mae costau caffael wedi'u cynnwys yng nghost y llyfr gwreiddiol ar yr adeg brynu. Ar ddiwedd y flwyddyn, fodd bynnag, mae buddsoddiadau yn y fantolen wedi'u prisio ar werth y farchnad. Cofnodir y gwahaniaeth yn y Cyfrifon fel "Newid yng Ngwerth Marchnad Buddsoddiadau".

Prisio Buddsoddiadau
Cynhwysir Buddsoddiadau yn y datganiadau ariannol ar sail gwerth teg fel ar y dyddiad adrodd. Cafodd gwerthoedd y buddsoddiadau fel y'u dangosir yn y datganiad asedau net eu pennu yn unol â gofynion y Cod ac IFRS 13. Ceir manylion y dulliau prisio a ddefnyddir gan y gronfa yn Nodyn 13c.

Arian Parod a Chyfwerthoedd Arian Parod
Mae arian parod yn cael ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw, y balans net ar holl gyfrifon banc y Cyngor. Mae'n cynnwys adneuon gyda sefydliadau ariannol, gan gynnwys rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad, sy'n ad-daladwy ar rybudd o ddim mwy na 24 awr heb gosb sylweddol. Mae hefyd yn cynnwys buddsoddiadau'n aeddfedu a llog a dderbyniwyd ar ddiwrnod gwaith cyntaf mis Ebrill.

Trafodion Arian Tramor
Troswyd buddsoddiadau tramor ar gyfraddau cyfnewid wrth gau WM/Reuters.

Trethiant

Trethiant	Triniaeth
Treth Incwm y DU	Mae'r gronfa'n un gymeradwy a eithrir a all adennill trethi incwm y DU.
Treth Enillion Cyfalaf y DU	Nid oes treth ar enillion cyfalaf yn daladwy.
Treth Ar Werth	Nid yw'r cyfrifon a ddangosir yn cynnwys TAW. Gan taw'r Cyngor yw'r Awdurdod gweinyddu, mae TAW yn adenilladwy ar holl weithgareddau'r Gronfa.
Treth a Gedwir Dramor	Yn aml bydd buddsoddi tramor yn destun cadw treth yn ôl yn y wlad wreiddiol, y mae modd o bosibl adennill rhywfaint ohonynt. Caiff treth nad oes modd ei hadennill ei netio i ffwrdd yn erbyn incwm.

3. Barn allweddol mewn polisïau cyfrifyddu perthnasol

Buddsoddiadau ecwiti preifat heb ddyfynbris

Mae'r rhain wedi'u seilio'n annatod ar flaenamcangyfrifon a blaenfarniadau a brisir gan reolwyr buddsoddi gan ddefnyddio'r ddwy brif set o ganllawiau prisio sy'n berthnasol i ecwiti preifat; y Canllawiau Prisio Ecwiti Preifat (PEVG) yn UDA a'r Canllawiau Prisio Rhyngwladol ar Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter (IPEVCG) y tu allan i UDA.

Atebolrwydd Cronfeydd Pensiwn

Cyfrifir hyn yn unol â IAS 19 gan yr actiwari bob tair blynedd gyda datganiad blynyddol yn y blynyddoedd rhyngddynt. Mae'r dyfynbris yn destun amrywiaethau sylweddol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol y cytunir arnynt gyda'r actiwari.

4. Rhagdybiaethau am y dyfodol a ffynonellau eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifiedig yn seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed wrth ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau eraill. Oherwydd nad oes modd penderfynu ar falansau â sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Eitem	Ansicrwydd	Effaith petai'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau
Gwerth presennol gwirioneddol buddion ymddeol a addawyd	Mae amcangyfrif rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth o ran y gyfradd ostyngol a ddefnyddir, y gyfradd cynyddu cyflogau, newidiadau mewn cyfraddau marw ac elw disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae'r actiwari'n darparu'r gronfa gyda chyngor ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio.	Gellir mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net y newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y rhagdybiaeth cyfradd ostyngol yn arwain at ostyngiad yn y rhwymedigaeth bensiwn. Byddai cynnydd mewn chwyddiant enillion a ragdybir neu ddisgwyliad oes a ragdybir yn cynyddu gwerth y rhwymedigaethau.
Prisiannau Ecwiti Preifat	Prisir buddsoddiadau ecwiti preifat ar werth teg yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Nid yw'r buddsoddiadau hyn wedi'u rhestru'n gyhoeddus ac felly mae elfen o amcangyfrif ynghlwm wrth y broses brisio.	Cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat yn y datganiadau ariannol yw £89 miliwn. Mae risg y gallai buddsoddiad gael ei dan- neu or-ddatgan yn y cyfrifon.
Cronfeydd Eiddo Cyfun	Defnyddir technegau prisio i bennu swm cario'r cronfeydd eiddo cyfun. Mae Covid-19 yn effeithio ar weithgarwch y farchnad mewn llawer o sectorau. Ar y dyddiad adrodd ym mis Mawrth 2020, mae rheolwyr cronfa eiddo o'r farn y gallant roi llai o bwys ar dystiolaeth	Gallai newidiadau yn y rhagdybiaethau prisio a ddefnyddir, yn ogystal â newidiadau sylweddol yn nhwf rhentu (cynnydd neu leihau) effeithio ar werth teg buddsoddiadau sy'n seiliedig ar eiddo. Mae'r datganiadau asedau net dangosol ar gyfer cronfeydd eiddo yn agored i

	flaenorol y farchnad at ddibenion cymharu. Maent yn wynebu seo o amgylchiadau digynsail y bydd yn rhaid eu defnyddio i benderfynu. Mae'r gostyngiad mewn trafodion a'r diffyg eglurder o ran prisio yn golygu bod pob prif briswyr y diwydiant bellach wedi ychwanegu cymalau Ansicrwydd Perthnasol at eu prisiadau cronfa eiddo.	ansicrwydd ar y dyddiad adrodd ac mae'r prisiad £165.2m ar gyfer cronfeydd eiddo cyfun yn llai dibynadwy nag arfer. Gallai'r anwadalrwydd disgwyliedig o 4.2% am flwyddyn gynyddu'r prisiad i £172.2m neu ei leihau i £158.3m.

5. Teitlau Perchenogaeth

Cedwir tystiolaeth o berchenogaeth i ymddiriedolaethau uned yr eiddo a daliadau ecwiti preifat gan Gyngor Caerdydd. The Northern Trust Company gadwodd yr holl dystiolaethau perchenogaeth eraill ar 31 Mawrth 2020 er budd y Cyngor. Darparwyd datganiadau daliadau gan Northern Trust.

6. Aelodaeth

Aelodau'r gronfa ar 31 Mawrth 2020 yw:

2018/19		**2019/20**
45	Cyflogwyr sy'n cyfrannu	48
45	**Cyfanswm y Cyflogwyr sy'n Cyfrannu**	**48**
16,193	Cyfranwyr	17,699
11,554	Pensiynwyr	11,945
13,040	Pensiynwyr gohiriedig	13,608
40,787	Cyfanswm aelodau	**43,252**

7. Cyrff Cyflogi – Cyfraniadau

2019/20	Nifer y cyfranwyr ar 31/03/2020	Cyflogwyr	Cyflogeion	Cyfanswm	*Cyfandaliad ychwanegol**
		£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:					
Cyngor Caerdydd	10,205	(45,650)	(12,074)	(57,724)	*0*
Cyrff Cofrestredig:					
Cyngor Bro Morgannwg	3,832	(15,102)	(3,787)	(18,889)	*(6)*
Cynghorau Tref a Chymuned	56	(275)	(62)	(337)	*0*
Cyrff Addysg	1,473	(6,487)	(2,437)	(8,924)	*(951)*
Cyrff Cofrestredig Eraill	10	(78)	(24)	(102)	*0*
Cyrff a Dderbyniwyd:					
Cyrff a Dderbyniwyd	826	(7,731)	(1,138)	(8,869)	*(3,844)*
Cyfanswm	**16,402**	**(75,323)**	**(19,522)**	**(94,845)**	**(4,801)**

2018/19	Nifer y cyfranwyr ar 31/03/2019	Cyflogwyr	Cyflogeion	Cyfanswm	*Cyfandaliad ychwanegol**
		£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:					
Cyngor Caerdydd	10,036	(42,897)	(11,316)	(54,213)	*0*
Cyrff Cofrestredig:					
Cyngor Bro Morgannwg	3,969	(14,127)	(3,809)	(17,936)	*(4)*
Cynghorau Tref a Chymuned	58	(277)	(63)	(340)	*0*
Cyrff Addysg	1,376	(6,071)	(2,245)	(8,316)	(1,006)
Cyrff Cofrestredig Eraill	15	(114)	(33)	(147)	*0*
Cyrff a Dderbyniwyd:					
Cyrff a Dderbyniwyd	739	(6,282)	(1,160)	(7,442)	(2,420)
Cyfanswm	**16,193**	**(69,768)**	**(18,626)**	**(88,394)**	***(3,430)***

*Cyfrif y memorandwm; cyfansymiau wedi'u cynnwys yng Nghyfanswm y Cyflogwyr.

Ariannu diffyg ychwanegol

Nid oedd unrhyw gyllid diffyg ychwanegol yn 2019/20 (dim cyllid diffyg ychwanegol yn 2018/19).

8. Cyrff Cyflogi – Buddion sy'n Daladwy

2019/20	Pensiynau Ymddeol	Cyfansymiau wrth Ymddeol	Grantiau Marwolaethau	Taliadau Cymudo
	£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:				
Cyngor Caerdydd	44,584	10,289	1,755	543
Cyrff Cofrestredig:				
Cyngor Bro Morgannwg	13,659	3,142	456	131
Cynghorau Tref a Chymuned	222	29	169	0
Cyrff Addysg	3,231	459	334	19
Cyrff Cofrestredig Eraill	2,676	301	78	10
Cyrff a Dderbyniwyd:				
Cyrff a Dderbyniwyd	5,666	1,189	191	71
Cyfanswm	**70,038**	**15,409**	**2,983**	**774**

2018/19	Pensiynau Ymddeol	Cyfansymiau wrth Ymddeol	Grantiau Marwolaethau	Taliadau Cymudo
	£000	£000	£000	£000
Corff Gweinyddu:				
Cyngor Caerdydd	41,735	8,777	1,685	442
Cyrff Cofrestredig:				
Cyngor Bro Morgannwg	12,801	3,689	554	173
Cynghorau Tref a Chymuned	228	53	0	0
Cyrff Addysg	3,037	882	332	58
Cyrff Cofrestredig Eraill	2,604	212	0	0
Cyrff a Dderbyniwyd:				
Cyrff a Dderbyniwyd	5,385	1,060	212	5
Cyfanswm	**65,790**	**14,673**	**2,783**	**678**

9. Treuliau Rheoli

Y treuliau rheoli a godir yn llawn i'r Gronfa yw:

2018/19		2019/20
£000		£000
1,120	Costau gweinyddu	1,880
32	Ffioedd archwilio	32
1,152	**Cyfanswm costau gweinyddu**	**1,912**
6,704	Ffioedd rheoli	6,221
126	Ffioedd cadw	151
6,830	**Cyfanswm treuliau rheoli buddsoddi**	**6,372**
101	Costau goruchwylio a llywodraethiant	145
8,083	**Cyfanswm**	**8,429**

10. Incwm Buddsoddi

2018/19 £000		2019/20 £000
(10,167)	Gwarannau llog sefydlog y DU	(10,019)
(4,209)	Gwarannau llog sefydlog tramor	(4,830)
(4,638)	Cronfeydd ecwiti ac ecwiti preifat y DU	(4,209)
(1,650)	Buddsoddiadau cyfun	(1,608)
(4,615)	Ecwiti tramor	(5,445)
(1,922)	Incwm Ymddiriedolaeth Uned Eiddo cyfun	(948)
(196)	Llog ar arian parod y DU	(218)
(101)	Benthyg ar warannau	(120)
(27,498)	**Cyfanswm**	**(27,397)**

11. Buddsoddiadau ar Werth y Farchnad

2018/19 £000		2019/20 £000
92,014	Gwarannau llog sefydlog sector cyhoeddus y DU	105,875
286,132	Gwarannau llog sefydlog eraill (cyfun) y DU	289,045
186,911	Sector cyhoeddus tramor (cyfun)	191,158
565,057	**Cyfanswm llog sefydlog**	**586,078**
119,317	Ecwitïau a thaliadau arnewidiol â dyfynbris y DU	0
179,868	Ecwiti tramor a restrir	164,067
299,185	**Cyfanswm ecwitïau a restrir**	**164,067**
425,357	Polisïau yswiriant unedol y DU (wedi cronni)	209,032
96,964	Cronfeydd eraill y DU a reolir	228,080
411,205	Polisïau yswiriant unedol tramor (wedi cronni)	294,639
76,440	Cronfeydd tramor eraill a reolir	239,958
1,009,966	**Cyfanswm cronfeydd cyfun**	**971,709**
155,944	Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun (DU a Byd-eang)	165,246
82,224	Ecwiti preifat	88,669
2,112,376	**Is-gyfanswm**	**1,975,769**
(1,243)	Deilliadau: Blaengontractau arian cyfred	3,212
(1,243)	**Cyfanswm deilliadau**	**3,212**
15,214	Arian y rheolwr cronfa	6,730
34,355	Arian mewnol/arian a gedwir	26,051
2,703	Enillion buddsoddiadau net dyledus	2,464
52,272	**Cyfanswm arian parod**	**35,245**
2,163,405	**Cyfanswm**	**2,014,226**

Trosglwyddwyd buddsoddiadau mewn ecwitiau a throsiannau rhestredig yn y DU i gronfeydd rheoledig eraill y DU yn ystod y flwyddyn.

Mae’r pandemig Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i anwadalrwydd amodau'r farchnad, mae'r adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio perthnasol ynghlwm â buddsoddiadau eiddo cyfun a reolir ar ran y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2020.

11a. Unioni o ran symudiad mewn buddsoddiadau

2019/20	Gwerth ar 31/03/19	Prynu ar gost	Elw gwerthu	Newid yng ngwerth y farchnad	Gwerth ar 31/03/20
	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarannau llog sefydlog	565,057	372,524	(377,841)	26,338	586,078
Ecwitïau	299,185	69,622	(203,202)	(1,538)	164,067
Cronfeydd cyfun	1,009,966	478,788	(234,115)	(282,930)	971,709
Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun	155,944	781	0	8,521	165,246
Ecwiti preifat	82,224	8,860	(15,434)	13,019	88,669
Is-gyfanswm	**2,112,376**	(575,055)	(830,592)	**(236,590)**	**1,975,769**
Deilliadau	(1,243)	2,921,655	(2,914,474)	(2,726)	3,212
Cyfanswm deilliadau	(1,243)	**2,921,655**	**(2,914,474)**	(2,726)	**3,212**
Arian parod rheolwyr	15,214				6,730
Arian mewnol/arian a gedwir	34,355				26,051
Enillion buddsoddiadau net dyledus	2,703				2,464
Cyfanswm arian parod	**52,272**				**35,245**
Is-gyfanswm	**2,163,405**			**(239,316)**	**2,014,226**
Symudiadau net arian parod a wireddwyd				59,063	
Cyfanswm	**2,163,405**			**(180,253)**	**2,014,226**

2018/19	Gwerth ar 31/03/18	Prynu ar gost	Elw gwerthu	Newid yng ngwerth y farchnad	Gwerth ar 31/03/19
	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarannau llog sefydlog	552,919	294,150	(292,012)	10,000	565,057
Ecwitïau	294,107	54,983	(47,302)	(2,603)	299,185
Cronfeydd Cyfun	951,339	920	0	57,707	1,009,966
Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun	134,177	14,633	0	7,134	155,944
Ecwiti preifat	79,302	7,268	(18,214)	13,868	82,224
Is-gyfanswm	**2,011,844**	**371,954**	**(357,528)**	**86,106**	**2,112,376**
Deilliadau	1,237	2,813,437	(2,813,426)	(2,491)	(1,243)
Cyfanswm deilliadau	**1,237**	**2,813,437**	**(2,813,426)**	(2,491)	(1,243)
Arian parod rheolwyr	7,683				15,214
Arian mewnol/arian a gedwir	26,729				34,355
Dyledwyr	2,177				2,703
Cyfanswm arian parod	**36,589**				**52,272**
Is-gyfanswm	**2,049,670**			**83,615**	**2,163,405**
Symudiadau net arian parod a wireddwyd				(3,316)	
Cyfanswm	**2,049,670**			**80,299**	**2,163,405**

Dadansoddiad o ddeilliadau

Amcanion a pholisïau o ran dal deilliadau

Mae'r daliad o ran deilliadau er mwyn cyfyngu ar rwymedigaethau neu gyfyngu ar fod yn agored er mwyn lleihau risg o safbwynt y gronfa. Rheolir y defnydd o ddeilliadau yn unol â chytundeb rheoli buddsoddiadau rhwng y gronfa a'r amryw reolwyr buddsoddi.

Arian tramor ymlaen

Er mwyn cynnal amrywiaeth briodol ac i fanteisio ar enillion buddsoddiadau tramor, mae cyfran o bortffolio ecwiti â dyfynbris y gronfa mewn marchnadoedd stoc tramor. I leihau'r ansefydlogrwydd sy'n gysylltiedig â chyfraddau arian cyfred newidiol, mae gan y gronfa drosolwg rheoli arian cyfred ar waith a reolir gan Mesirow Financial, sy'n buddsoddi sicrhau yn erbyn arian cyfred hirdymor sylweddol i gyfyngu colledion. Mae'r portffolio'n cynnwys arian cyfred doleri'r UDA, yr Yen a'r Ewro.

12. Crynodeb o werthoedd portffolio y rheolwr

2018/19		Rheolwr y Gronfa	2019/20	
£000	% o'r Gronfa		**£000**	% o'r Gronfa
571,700	26.4	Aberdeen Asset Management	592,189	29.4
76,440	3.5	Aberdeen Emerging Markets	80,398	4.0
565,841	26.2	Blackrock Investment Management	503,671	25.0
96,964	4.5	Invesco Perpetual	64,256	3.2
88,835	4.1	JP Morgan	0	0.0
125,788	5.8	Majedie	0	0.0
91,782	4.2	Nikko	87,945	4.4
91,989	4.3	Schroder Investment Managers	82,417	4.1
181,886	8.4	State Street Global Advisers (SSGA)	159,560	7.9
0	0.0	Partneriaeth Pensiwn Cymru - Cyfleoedd y DU	163,824	8.1
155,944	7.2	Eiddo	165,246	8.2
82,224	3.8	Rheolwyr Ecwiti Preifat	88,669	4.4
2,644	0.1	Trosolwg arian cyfred ac arian parod gyda chystodydd Mesirow	2,543	0.1
31,368	1.5	Rheolir yn fewnol (arian parod)	23,508	1.2
2,163,405	**100.0**	**Cyfanswm**	**2,014,226**	**100.0**

12a. Buddsoddiadau sy'n fwy na 5% o asedau net

Mae'r buddsoddiadau canlynol yn cynrychioli mwy na 5% o'r asedau net sydd ar gael i dalu buddion (naill ai yn 2018/19, 2019/20 neu'r ddwy flynedd).

2018/19		Rheolwr y Gronfa	2019/20	
£000	% yr asedau net		£000	% yr asedau net
336,522	15.5	BlackRock Aquila Life UK Equities Indexed Fund	209,032	10.3
229,320	10.5	BlackRock Aquila Life US Equities Indexed Fund	99,171	4.9
181,886	8.4	SSGA MPF Europe ex UK Equities Active Fund	159,560	7.9
174,416	8.0	Aberdeen Corporate Bond Fund	176,256	8.7
111,716	5.1	Aberdeen Target Return Bond Fund	112,789	5.5
107,749	4.9	Aberdeen Global Government Bond Fund	123,686	6.1
92,424	4.2	Aberdeen UK Fixed Interest Gilts	106,322	5.2
0	0.0	BlackRock Low Carbon Tracker Fund	195,469	9.6
0	0.0	Partneriaeth Pensiwn Cymru - Cyfleoedd y DU	163,824	8.1

13. Offerynnau Ariannol

13a. Dosbarthu offerynnau ariannol

Gwerth ar 31/03/19				Gwerth ar 31/03/20		
Gwerth teg drwy elw a colledion	Cost wedi'i Hamorteiddio	Rhwymedigaethau ariannol ar gostau amorteiddio		Gwerth teg drwy elw a colledion	Cost wedi'i Hamorteiddio	Rhwymedigaethau ariannol ar gostau amorteiddio
£000	£000	£000		£000	£000	£000
565,057	0	0	Gwarannau llog sefydlog	586,078	0	0
299,185	0	0	Ecwitïau	164,067	0	0
1,009,966	0	0	Cronfeydd cyfun	971,709	0	0
155,944	0	0	Ymddiriedolaethau eiddo cyfun	165,246	0	0
82,224	0	0	Ecwiti preifat	88,669	0	0
137,741	0	0	Deilliadau	130,993	0	0
0	52,272	0	Arian Parod	0	35,245	0
0	17,014	0	Dyledwyr	0	20,230	0
2,250,117	**69,286**	**0**	**Cyfanswm asedau ariannol**	2,106,762	**55,475**	**0**
(138,984)	0	0	Deilliadau	(127,781)	0	0
0	0	(1,784)	Credydwyr	0	0	(1,377)
(138,984)	**0**	(1,784)	**Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol**	**(127,781)**	**0**	**(1,377)**
2,111,133	**69,286**	(1,784)	**Asedau ariannol net**	**1,978,981**	**55,475**	(1,377)

13b. Enillion a cholledion net ar offerynnau ariannol

31/03/19		31/03/20
£000		£000
86,803	Gwerth teg drwy elw a cholled	(169,457)
86,803	**Cyfanswm asedau ariannol**	**(169,457)**
(6,821)	Gwerth teg drwy elw a cholled	(11,203)
317	Cost wedi'i Hamorteiddio	407
(6,504)	**Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol**	**(10,796)**
80,299	**Asedau ariannol net**	**(180,253)**

13c. Gwerth teg – Sail y Prisiad

Buddsoddiad	Dull Prisio	Mewnbynnau gweladwy ac anweladwy	Sensitifedd allweddol sy'n effeithio ar y prisiadau a ddarperir
Lefel 1 Dyfynbrisiau ar gyfer offerynnau tebyg.			
Bondiau a restrir (Gwarannau Llog Sefydlog)	Gwerth ar y farchnad yn seiliedig ar gynnyrch cyfredol	Dim eu hangen	Dim eu hangen
Buddsoddiadau a Restrir yn y Farchnad	Pris marchnad y cynnig a gyhoeddwyd ar ddiwedd y busnes y diwrnod gwaith olaf y cyfnod cyfrifo	Dim eu hangen	Dim eu hangen
Lefel 2 Masnachu mewn marchnad nas ystyrir yn actif, neu pan ddefnyddir technegau prisio i benderfynu ar werth teg sy'n defnyddio mewnbynnau sy'n seiliedig yn helaeth ar ddata gweladwy'r farchnad.			
Buddsoddiadau Cyfun - Ecwiti a Ddyfynnir	Pris cau'r cais lle cyhoeddir y prisiau ymgeisio a chynnig. Pris cau sengl lle mae pris sengl wedi'i gyhoeddi	Gosod prisiau ar sail Gwerth Asedau Net (NAV) ar sail prisio ymlaen	Dim eu hangen
Deilliadau - Blaengontractau Arian Cyfred	Blaen-gyfraddau cyfnewid y farchnad ar ddyddiad diwedd y flwyddyn	Risg y gyfradd gyfnewid	Dim eu hangen
Lefel 3 Mewnbynnau nad ydynt yn seiliedig ar ddata arsylwol y farchnad.			
Cronfeydd Ecwiti Preifat	Prisiadau a ddarparwyd gan y partneriaid cyffredinol i'r cronfeydd ecwiti preifat yn unol â Chanllawiau Rhyngwladol Ecwiti Preifat a Phrisio Cyfalaf Menter (2012)	Enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA) lluosrif, lluosrif refeniw, disgownt am ddiffyg marchnadwyedd a phremiwm rheoli	Gall digwyddiadau materol sy'n digwydd rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a ddarparwyd a dyddiad adrodd y gronfa bensiwn ei hun effeithio ar brisiadau (er y cânt eu diweddaru i adlewyrchu galwadau/dosbarthiadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn), yn ogystal â newidiadau i lifau arian disgwyliedig ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon heb eu harchwilio ac archwiliedig
Buddsoddiadau Cyfun - Cronfeydd Eiddo	Pris cau'r cais lle cyhoeddir y prisiau ymgeisio a chynnig. Pris cau sengl lle mae pris sengl wedi'i gyhoeddi	Gosod prisiau ar sail Gwerth Asedau Net (NAV) ar sail prisio ymlaen	Gall digwyddiadau ôl-fantolen, newidiadau i lifau arian disgwyliedig ac unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon heb eu harchwilio a chyfrifon archwiliedig effeithio ar brisiadau.

13d. Hierarchaeth Gwerth Teg

Fel y manylir uchod cafodd buddsoddiadau eu dosbarthu i dair lefel yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg. Mae'r tabl canlynol yn darparu dadansoddiad o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn yn seiliedig ar y lefel y gellir gweld y gwerth teg.

Gwerth ar 31/03/20	**Dyfynbris y farchnad**	**Defnyddio mewnbynnau arsylwol**	**Gyda mewnbynnau sylweddol nad oes modd eu harsylwi**	**Cyfanswm**
	Lefel 1	**Lefel 2**	**Lefel 3**	
	£000	**£000**	**£000**	**£000**
Asedau ariannol ar werth teg	750,145	1,102,702	253,915	2,106,762
Cost wedi'i Hamorteiddio	55,475	0	0	55,475
Cyfanswm asedau ariannol	**805,620**	**1,102,702**	**253,915**	**2,162,237**
Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg	0	(127,781)	0	(127,781)
Rhwymedigaethau Ariannol ar Gostau Amorteiddio	(1,377)	0	0	(1,377)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	**(1,377)**	**(127,781)**	**0**	**(129,158)**
Asedau ariannol net	**804,243**	**974,921**	**253,915**	**2,033,079**

Gwerth ar 31/03/19	**Dyfynbris y farchnad**	**Defnyddio mewnbynnau arsylwol**	**Gyda mewnbynnau sylweddol nad oes modd eu harsylwi**	**Cyfanswm**
	Lefel 1	**Lefel 2**	**Lefel 3**	
	£000	**£000**	**£000**	**£000**
Asedau ariannol ar werth teg	864,242	1,147,707	238,168	2,250,117
Benthyciadau ac arian i'w dderbyn	69,286	0	0	69,286
Cyfanswm asedau ariannol	**933,528**	**1,147,707**	**238,168**	**2,319,403**
Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg	0	(138,984)	0	(138,984)
Rhwymedigaethau Ariannol ar Gostau Amorteiddio	(1,784)	0	0	(1,784)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	(1,784)	(138,984)	**0**	**(140,768)**
Asedau ariannol net	**931,744**	**(1,008,155)**	**238,168**	**2,178,635**

13e. Unioni mesuriadau gwerth teg yn Lefel 3

2019/20	Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/19	Trosglwyddiadau i lefel 3	Trosglwyddiadau allan o lefel 3	Pryniadau	Gwerthiannau	Enillion/(colledion) nas cyflawnwyd	Enillion/(colledion) a gyflawnwyd	Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/20
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ecwiti preifat	82,224	0	0	8,860	(15,434)	13,019	0	88,669
Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun	155,944	0	0	781	0	8,521	0	165,246
Cyfanswm	**238,168**	**0**	**0**	**9,641**	**(15,434)**	**21,540**	**0**	**253,915**

Caiff pob trosglwyddiad rhwng lefelau eu cydnabod ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

13f. Sensitifrwydd Asedau wedi'u Prisio ar Lefel 3

Wedi dadansoddi data hanesyddol, tueddiadau cyfredol y farchnad, ac wedi ymgynghori â chynghorwyr buddsoddi annibynnol (Pensions and Investments Research Consultants Ltd (PIRC)), mae'r gronfa wedi penderfynu bod y dulliau prisio a ddisgrifir uchod ar gyfer buddsoddiadau Lefel 3 yn debygol o fod yn gywir i o fewn yr ystodau canlynol, ac mae wedi disgrifio'r effaith ganlyniadol isod:

	Ystod brisio wedi ei hasesu	Gwerth ar 31/03/20	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngiad
	(%)	£000	£000	£000
Ecwiti Preifat	7.5	88,669	95,319	82,019
Ymddiriedolaethau Eiddo Cyfun	4.2	165,246	172,186	158,306
Cyfanswm		**253,915**	**267,505**	**240,325**

14. Natur a helaethder risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Mae'r gronfa'n rhan o amryw offerynnau, yn ôl Egwyddorion Datgan Buddsoddiadau, ac o ganlyniad caiff ei amlygu i risg credyd a hylifedd, yn ogystal â risg marchnad gan gynnwys cyfnewid arian tramor a risgiau cyfraddau llog.

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r gronfa'n fyr o'i rhwymedigaethau ac ni all dalu'r buddion a addawyd i aelodau. Nod rheoli risg buddsoddi yw rheoli risg gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y gronfa i wneud y mwyaf o'r cyfle i sicrhau elw ar draws portffolio'r gronfa gyfan. Mae'r gronfa'n cyflawni hyn drwy arallgyfeirio asedau i leihau risg y farchnad a risg credyd i lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r gronfa'n rheoli ei risg hylifedd i sicrhau bod digon ohono i fodloni llifoedd arian parod a rhagwelir y gronfa.

Mae'r risg reoli'n un o amcanion allweddol y Gronfa Bensiwn. Mae polisi arallgyfeirio o ddosbarthiadau asedau a rheolwyr buddsoddi'n helpu'r gronfa bensiwn i leihau'r risg sy'n deillio o offerynnau ariannol. Mae meincnodau ar gyfer pennu asedau a thargedau yn erbyn perfformiad disgwyliedig rheolwyr buddsoddi'n fesurau pellach a roddir ar waith i reoli'r risg.

Risg y farchnad yw'r risg y bydd gwerth teg neu lifoedd arian parod yn y dyfodol mewn sefydliad yn amrywio oherwydd newid ym mhris y farchnad.

Er mwyn rheoli risg, mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn cronfa amrywiol o asedau, a rennir rhwng nifer o reolwyr â thargedau perfformiad gwahanol a strategaethau buddsoddi. Er mwyn lliniaru'r risg, mae'r Gronfa'n adolygu'n rheolaidd strategaeth fuddsoddi'r gronfa bensiwn ynghyd â monitro dyrannu asedau'n rheolaidd a pherfformiad buddsoddiadau.

Y risg cyfradd llog yw'r risg yr amlygir y Gronfa Bensiwn iddi o ran newidiadau mewn cyfraddau llog ac mae'n ymwneud yn bennaf â newidiadau mewn bondiau.

I liniaru'r risg, mae gan y Gronfa bortffolio llog sefydlog a reolir gan Aberdeen Asset Management, y rheolwr bondiau actif a benodir.
Gall Cyfraddau Llog amrywio a gallant effeithio ar incwm y gronfa a gwerth asedau net buddion tâl. Mae'r dadansoddiad isod yn dangos effaith symudiad (1%) pwynt sail 100 mewn cyfraddau llog ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion:

Math yr Ased	**Swm Cario Ymlaen ar 31/03/20**	**Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion**	
		- 100bps	**- 100bps**
	£000	**£000**	**£000**
Arian Parod a Chyfwerthoedd Arian Parod	38,456	385	(385)
Gwarannau llog sefydlog	586,079	5,861	(5,861)
Cyfanswm	**624,535**	**6,246**	**(6,246)**

Math yr Ased	**Swm Cario Ymlaen ar 31/03/19**	**Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion**	
		- 100bps	**- 100bps**
	£000	**£000**	**£000**
Arian Parod	51,029	510	(510)
Gwarannau llog sefydlog	565,057	5,651	(5,651)
Cyfanswm	**616,086**	**6,161**	**(6,161)**

Risg arian cyfred yw'r risg yr amlygir y Gronfa Bensiwn iddi o du newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian cyfred. Yswirir Bondiau Byd-eang y Gronfa a phortffolios Ecwiti yng Ngogledd America, Ewrop a Siapan gan drefniadau buddsoddi tramor. Bydd rheolwyr y gronfa hefyd yn ystyried y risg arian cyfred yn eu penderfyniadau buddsoddi.

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ac ymgynghori gydag ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Pensions and Investments Research Consultants Ltd (PIRC), cafodd y newid cyfanredol mewn arian ei gyfrifo fel 7.35%. Byddai cryfhau/gwanhau 7.35% yn y bunt yn erbyn yr amryw arian cyfred y mae'r gronfa'n cadw asedau ynddynt yn cynyddu/gostwng yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion fel a ganlyn:

Amlygiad arian cyfred – math yr ased	Gwerth Asedau ar 31/03/20	Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+ 7.35%	- 7.35%
	£000	£000	£000
Ecwiti tramor a restrir	164,067	12,059	(12,059)
Cronfeydd cyfun tramor	534,597	39,293	(39,293)
Eiddo cyfun tramor	58,499	4,300	(4,300)
Cyfanswm newid asedau sydd ar gael	**757,163**	**55,652**	**(55,652)**

Amlygiad arian cyfred – math yr ased	Gwerth Asedau ar 31/03/19	Newid yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+ 6.1%	- 6.1%
	£000	£000	£000
Gwarannau tramor â dyfynbris	179,868	10,972	(10,972)
Cronfeydd cyfun tramor	487,645	29,746	(29,746)
Eiddo cyfun tramor	52,325	3,192	(3,192)
Cyfanswm newid asedau sydd ar gael	**719,838**	**43,910**	**(43,910)**

Risg pris yw risg colledion sy'n gysylltiedig â newid prisiau'r asedau sylfaenol. Drwy arallgyfeirio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau a rheolwyr asedau, nod y Gronfa Bensiwn yw lleihau'r risg pris. Mae arallgyfeirio dosbarthiadau ased yn ceisio lleihau'r gyfatebiaeth rhwng symudiadau pris, gyda chyflogi rheolwyr arbenigol yn galluogi'r Gronfa i fanteisio ar arbenigedd buddsoddi.

Penderfynir ar newidiadau posibl i brisiau'n seiliedig ar ansefydlogrwydd hanesyddol elw dosbarth asedau. Mae'r ansefydlogrwydd posibl yn gyson ag un symudiad amrywio safonol yn newid gwerth asedau dros y tair blynedd diwethaf, sy'n berthnasol i gymysgedd ased diwedd y cyfnod. Mae cyfanswm yr ansefydlogrwydd a ddangosir isod ar gyfer cyfanswm yr asedau yn cynnwys effaith cyfatebiaeth ar draws yr holl arian cyfred sy'n effeithio ar ansefydlogrwydd ac felly ni fydd y ffigurau gwerth ar gynnydd a gwerth ar ostyngiad yn rhan o'r ffigur cyfan.

Math yr Ased	Gwerth ar 31/03/20	Newid canrannol	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngiad
	£000	%	£000	£000
Ecwiti'r DU	437,112	16.30	508,361	365,863
Ecwiti Tramor	698,664	12.32	784,739	612,589
Llog sefydlog (Bondiau)	586,078	4.28	611,162	560,994
Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	38,457	0.15	38,515	38,399
Ecwiti Preifat	88,669	7.52	95,337	82,001
Eiddo	165,246	4.18	172,153	158,339
Cyfanswm Asedau	**2,014,226**	**8.59**	**2,187,248**	**1,841,204**

Math yr Ased	Gwerth ar 31/03/19	Newid canrannol	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngiad
	£000	%	£000	£000
Ecwiti'r DU	641,638	8.95	699,065	584,211
Ecwiti Tramor	667,513	10.13	735,132	599,894
Llog sefydlog (Bondiau)	565,057	3.64	585,625	544,489
Arian Parod	51,029	0.13	51,095	50,963
Ecwiti Preifat	82,224	10.48	90,841	73,607
Eiddo	155,944	4.12	162,369	149,519
Cyfanswm Asedau	**2,163,405**	**6.09**	**2,295,156**	**2,031,654**

Risg credyd yw'r risg y bydd parti i gontract i offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth ac achosi'r gronfa i golli gwerth. Mae'r Gronfa'n adolygu ei hamlygiad i risg credyd a pharti i gontract drwy reolwyr buddsoddiadau allanol. Mae'r Gronfa hefyd yn agored i risg credyd trwy ei rhaglen benthyca ar warannau a redir gan geidwad y Gronfa, Northern Trust, sy'n rheoli ac yn monitro'r risg parti i gontract, y risg gyfochrog a'r rhaglen fenthyca gyffredinol.

Cedwir cyfrif banc y Gronfa Bensiwn gyda banc Lloyds a NatWest. Ni fuddsoddir arian gwarged â'r rhain, ond fe'i rhoddir gyda detholiad o sefydliadau Marchnad Arian AAA. Mae daliad arian parod y Gronfa a reolir yn fewnol o dan ei threfniadau rheoli trysorlys yn cael ei ddal gyda'r sefydliadau canlynol:

	Sgôr Fitch	**31/03/19**	**31/03/20**
		£000	**£000**
Cronfeydd marchnad arian			
Aberdeen Standard Liquidity - Sterling Fund	AAA	12,000	11,750
Blackrock ICS Sterling Liquidity Fund	AAA	12,000	11,230
Deutsche Global Liquidity - Sterling Fund	AAA	7,650	0
Cyfrif cyfredol banc			
Lloyds Bank	A	(282)	479
NatWest	A	0	49
Cyfanswm		**31,368**	**23,508**

Nid yw'r gronfa bensiwn wedi profi unrhyw ddiffyg-daliadau gan reolwyr cronfeydd, broceriaid neu gyfrifon banc dros y deng mlynedd diwethaf, felly nid oes gofyn am unrhyw ddarpariaeth ar gyfer colled credyd a ddisgwylir.

Y ***risg hylifedd*** yw'r posibiliad nad oes gan y Gronfa arian i gyflawni ei rhwymedigaethau ariannol. Sefyllfa gyfredol y Gronfa yw bod gwarged arian parod, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cyfraniadau at y Gronfa'n fwy na swm y taliadau a wneir. Cedwir arian parod y Gronfa Bensiwn mewn cyfrif banc ar wahân a chaiff y sefyllfa arian parod ei monitro'n ddyddiol. Caiff cronfeydd gwarged eu rhoi mewn cronfeydd marchnad yn y byrdymor. Ar lefel fuddsoddi, mae buddsoddiadau'r Gronfa i raddau helaeth yn warannau a restrir ac ystyried yn wireddadwy.

15. Gwerth Presennol Actiwaraidd Buddion Ymddeol a Addawyd

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn gofyn am ddatgelu gwerth presennol actiwaraidd buddion ymddeol a addawyd wedi'u cyfrifo ar sail IAS 19, fel y'i rhestrir yn IAS 26.

Felly, yn ogystal â'r prisiad cyllid bob tair blynedd, mae actiwari'r gronfa yn ymgymryd â phrisiad o atebolrwydd y gronfa bensiwn ar sail IAS 19 ar y un dyddiad. Cynhelir â'r prisiad IAS 19 gan ddefnyddio rhagdybiaethau actiwaraidd a ddiweddarwyd o'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu'r gronfa ac nid yw cyfrifon y gronfa yn ystyried ymatebolrwydd i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol.

Dangosir y prisiad actiwaraidd diweddaraf sy'n seiliedig ar IAS 19 isod:

31/03/2016		**31/03/2019**
£m		**£m**
2,274	Gwerth Presennol actiwaraidd Buddion Ymddeol a Addawyd	3,168

Bydd rhwymedigaethau disgwyliedig y Gronfa Bensiwn ar gyfer y dyfodol hefyd yn destun ystyriaeth dyfarniad McCloud a chydraddoli GMP. Ystyriwyd yr effaith gan yr actiwari o fewn y prisiad tair blynedd, a gynhaliwyd yn 2019/20 (gweler y Datganiad Actiwaraidd ar dudalennau 4-7 y ddogfen hon). Yn dilyn ymgynghoriad gan y Llywodraeth ar newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020, cadarnhaodd yr Actiwari na fyddai unrhyw addasiadau pellach yn cael eu gwneud i'r prisiad.

16. Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC)

Gall aelodau'r cynllun ddewis gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i wella eu sefyllfa budd-daliadau. Gwneir cyfraniadau yn uniongyrchol o aelodau'r cynllun i ddarparwr yr AVC ac felly nid ydynt wedi'u cynrychioli yn y cyfrifon hyn yn unol ag adran 4(2)b Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cyllid) 2009 (SI 2009/3093). Fodd bynnag, fel yr awdurdod gweinyddu, rydym yn goruchwylio'r trefniadau AVC canlynol:

2018/19		**2019/20**
£000		**£000**
648	AVC a dalwyd yn ystod y flwyddyn	577
3,902	Gwerth Marchnad yr AVC a fuddsoddir ar wahân	3,724

17. Ymrwymiadau Cytundebol

Ar 31 Mawrth 2020 roedd gan y Gronfa ymrwymiadau ecwiti preifat heb eu talu o uchafswm o £53.446 miliwn (£44.264 miliwn ar 31 Mawrth 2019).

Ar 31 Mawrth 2020 roedd gan y Gronfa flaengontractau arian cyfred gwerth £130.993 miliwn o bwrcasiadau a £127.781 miliwn o werthiannau, gan ddangos elw nas gwireddwyd o £3.212 miliwn.

18. Benthyg ar Warannau

Ar ddiwedd y flwyddyn gwerth ecwiti â dyfynbris ar fenthyciad oedd £311.147 miliwn (£68.619 miliwn ym mis Mawrth 2019) ac yn gyfnewid am hynny roedd gan y ceidwad £329.301 miliwn (£72.760 miliwn ym Mawrth 2019). Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 cawsai'r Gronfa incwm o £120,000 drwy fenthyca stoc (£101,000 yn 2019/20).

19. Darpariaethau ac Ymatebolrwydd wrth Gefn

Cafodd nifer o grantiau marwolaeth eu nodi lle y methodd y Gronfa olrhain y berthynas agosaf, sy'n golygu na wnaed unrhyw daliad hyd yn hyn. Ym mhob un o'r achosion sy'n weddill, cafwyd anhawster wrth gysylltu, sy'n golygu nad yw'r taliadau'n debygol o gael eu setlo o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amseru'r taliadau hyn a'r symiau terfynol sy'n daliadwy, ychwanegwyd darpariaeth hirdymor o £0.737 miliwn at y cyfrifon, sy'n cynnwys £0.591 miliwn o grantiau marwolaeth sy'n daladwy a £0.146 miliwn o log a amcangyfrifir.

Nid oes gan y Gronfa rwymedigaethau sylweddol wrth gefn.

20. Trafodion Parti Cysylltiedig

Mae’r berthynas rhwng y cyflogwyr a’r Gronfa Bensiwn, o’i natur ei hun, yn agos. Felly, ystyrir pob cyflogwr sy’n cymryd rhan yn barti perthynol.

Ymhlith y trafodion parti cysylltiedig eraill â’r Cyngor mae:

- Arian parod a fuddsoddir yn fewnol gan y Cyngor (at ddibenion cyfalaf gwaith) – gweler Nodyn 12 Crynodeb o werthoedd portffolio y rheolwr
- Dangosir treuliau gweinyddol a godir ar y Gronfa gan y Cyngor yn Nodyn 9 Treuliau Rheoli
- Mae Paragraff 3.9.4.3 o’r Cod Ymarfer yn eithrio Awdurdodau Lleol rhag y gofynion rheoli datgelu personél allweddol yn IAS24 ar y sail y manylir ar ofynion taliadau cydnabyddiaeth swyddogion a lwfansau aelodau yn adran 3.4 y Cod ac y gellir ei weld yn Natganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd.

Mae tri aelod o bwyllgor y gronfa bensiwn a thri aelod o bwrdd y gronfa bensiwn yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn. Hefyd derbyniodd un o’r aelodau gweithredol ar fwrdd y gronfa bensiwn fuddion y gronfa bensiwn gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg.

21. Cyflogwyr sy'n Cyfrannu

Rhoddir manylion y cyflogwyr gweithredol sy'n cyfrannu ar 31 Mawrth 2020 isod:

Corff Gweinyddu	
Cyngor Caerdydd	
Cyrff Rhestredig	
Cynghorau	**Cynghorau Tref a Chymunedol**
Cyngor Bro Morgannwg	Cyngor Tref y Barri
Cyrff Addysg	Cyngor Tref y Bont-faen
Coleg Caerdydd a'r Fro	Cyngor Cymuned Llys-faen
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	Cyngor Llanilltud Fawr
Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant	Cyngor Tref Penarth
Ysgol Gyfun Stanwell	Cyngor Cymuned Penllyn
Cyrff Cofrestredig Eraill	Cyngor Cymuned Pentyrch
Bws Caerdydd	Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Cyngor Cymuned Gwenfô
Cyrff a Dderbyniwyd	
A and R Cleaning Gabalfa	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
A and R Cleaning Greenway	Glen Cleaning (Ysgol Gyfun y Barri)
A and R Cleaning y Stryd Fawr*	Glen Cleaning (Ysgol Uwchradd y Dwyrain)
A and R Cleaning Lansdowne	Glen Cleaning (Ysgol Gynradd Gladstone)
A and R Cleaning Trowbridge	Glen Cleaning (Llandochau)
A and R Cleaning yr Eglwys Newydd	Greenwich Leisure Limited
Dysgu Oedolion Cymru	Grangetown Prim Cleaning (App)
Big Fresh Cleaning*	Mirus Cymru
Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Dyffryn)
Prifysgol Caerdydd	Un Llais Cymru
Gyrfa Cymru (Caerdydd a'r Fro)	Chwarae Cymru
Plant yng Nghymru	Cyngor Chwaraeon Cymru
Circle IT (Ysgol Gyfun y Bont-faen)	St Teilo's Cleaning (APP)
Circle IT (Ysgol Uwchradd y Dwyrain)	Cymdeithas Tai Wales & West
Colegau Cymru - Colleges Wales	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Comisiwn Dylunio Cymru	

*Cyflogwyr sy'n cyfrannu i'r Gronfa yn 2019/20 nad oeddent yn cyfrannu i'r Gronfa yn 2018/19.

22. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid oes digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w hadrodd.

23. Dyddiad Awdurdodi i'r Cyfrifon i'w Cyhoeddi

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon hwn i'w gyhoeddi ar 22 Hydref 2020 gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Ystyriwyd digwyddiadau ôl-Fantolen wedi'u hystyried hyd y dyddiad hwn.

Geirfa

Rhagdybir gwybodaeth am derminoleg cyfrifeg sylfaenol. Fodd bynnag, mae termau arbenigol penodol sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol a disgrifir y rhain isod:

Sail Gronnol
Yr egwyddor gronnol yw bod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill yn hytrach na phan gaiff ei dderbyn, a bod treuliau'n cael eu cofnodi pan fo nwyddau neu wasanaethau'n dod i law yn hytrach na phan delir amdanynt.

Rheolaeth Weithredol / Oddefol
Rheoli gweithredol yw'r ffordd draddodiadol o reoli buddsoddi, yn cynnwys cyfres o benderfyniadau buddsoddi unigol sy'n ceisio cael yr elw gorau trwy fanteisio ar aneffeithlonrwydd prisiau, h.y. 'curo'r farchnad'.
Mae rheolaeth oddefol yn ddewis arall ar gost isel lle y bydd rheolwyr fel arfer yn cadw stoc yn unol â mynegai a gyhoeddir, megis y FTSE All-Share, heb geisio perfformio'n well ond cadw i fyny â'r mynegai sy'n cael ei dracio.

Actiwari
Ymgynghorydd annibynnol sy'n rhoi cyngor ar hyfywedd hirdymor y Gronfa. Bob tair blynedd mae actiwarïaid y Gronfa yn adolygu asedau a rhwymedigaethau'[r Gronfa ac yn adrodd i'r Cyngor ar y sefyllfa ariannol a chyfraddau cyfrannu'r cyflogwr a argymhellir. Adwaenir hyn fel prisiad yr actiwari.

Enillion a Cholledion actiwaraidd
Mewn cynllun pensiwn â'r buddion a ddiffiniwyd, dyma'r newidiadau yn y diffygion neu ychwanegion actiwaraidd sy'n codi oherwydd nad oedd y digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed yn y gwerthiad diweddaraf, neu os na newidiodd y rhagdybiaethau actiwaraidd.

Aelod Gweithredol
Cyflogai presennol sy'n cyfrannu at gynllun pensiwn.

Corff a Dderbyniwyd
Sefydliad, y gall ei staff fynd yn aelodau o'r Gronfa drwy rinwedd cytundeb derbyn a wnaed rhwng y Cyngor a'r sefydliad. Mae'n galluogi contractwyr sy'n ymgymryd â gwasanaethau'r Cyngor gyda chyflogeion yn trosglwyddo, er mwyn cynnig i'r staff hynny aelodaeth i barhau fel aelodau'r Gronfa.

Dyrannu Asedau
Dosrannu cronfeydd buddsoddi ymysg asedau ymhlith categori asedau, megis Bondïau, Ecwitïau, Arian Parod, Eiddo, Deilliadau ac Ecwiti Preifat. Mae dyrannu asedau yn effeithio ar risgiau ac ar adenillion.

Meincnod
Mesur y gall y polisi buddsoddi neu berfformiad rheolwr buddsoddiad gael ei mesur yn ei erbyn.

Bondiau
Buddsoddiadau, y rhan fwyaf ohonynt mewn stociau'r llywodraeth, sy'n gwarantu cyfradd llog sefydlog Mae'r gwarannau'n cynrychioli benthyciadau y gellir eu had-dalu yn y dyfodol ond y gellir eu masnachu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn y cyfamser,

Arian Parod a Chyfwerthoedd Arian Parod
Symiau o arian sydd ar gael i'w defnyddio ar unwaith a blaendaliadau â sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd hyd at 24 awr.

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA)
CIPFA yw'r prif gorff cyfrifyddu proffesiynol sy'n penderfynu ar safonau cyfrifyddu a safonau adrodd i Lywodraeth Leol eu dilyn.

Rhwymedigaethau neu Asedau Wrth Gefn
Symiau a allai fod yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau neu ganddynt, a allai godi yn y dyfodol ond na ellir eu pennu'n gywir ar hyn o bryd, ac na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yng nghyfrifon y Cyngor.

Credydwyr
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a gafwyd neu wasanaethau a roddwyd, nas talwyd amdanynt ar ddyddiad y fantolen.

Ceidwad
Banc neu sefydliad ariannol arall sy'n cadw tystysgrifau stoc a asedau cleient arall, yn casglu difidendau ac ad-daliadau treth sy'n daladwy, ac yn setlo unrhyw bwrcasiadau a gwerthiannau.

Dyledwyr
Symiau o arian sy'n ddyledus i'r Cyngor nas talwyd ar ddyddiad y Fantolen.

Pensiynwr Gohiriedig
Aelod sydd wedi rhoi'r gorau i dalu i mewn i'r cynllun ond nid yw wedi ymddeol eto.

Cynllun Budd Diffiniedig (Pensiynau)
Pensiwn neu gynllun budd arall wrth ymddeol yn hytrach na chynllun cyfraniad diffiniedig. Fel arfer mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol o'r cyfraniadau taladwy ac nid yw'r buddion yn ymwneud yn uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynllun gael ei ariannu neu fod heb ei ariannu (gan gynnwys ariannu amodol).

Cynllun Cyfraniad Diffiniedig (Pensiynau)
Cynllun pensiwn neu fudd arall y mae'r cyflogwr yn talu swm yn rheolaidd iddo neu fel canran o dâl ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu cyfraniadau eraill os nad oes gan y cynllun ddigon o asedau i dalu'r holl fuddion cyflogeion o ran gwasanaeth cyflogeion yn y cyfnod presennol neu flaenorol.

Deilliad
Offeryn deilliadol yw contract y mae ei werth yn seiliedig ar berfformiad ased ariannol gwaelodol, mynegai neu fuddsoddiad arall.

Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg
Marchnadoedd stoc cymharol newydd ac anaeddfed ar gyfer ecwitïau neu bondiau. Gall setliad a hylifedd fod yn llai dibyniadau nag yn y marchnadoedd 'datblygedig' mwy sefydledig, ac maent yn tueddol o fod yn fwy cyfnewidiol.

Cyfraddau Cyfrannu Cyflogwyr
Canran cyflog cyflogeion y mae cyflogwyr yn talu fel cyfraniad tuag at bensiwn cyflogeion.

Ecwitïau
Cyfranddaliadau arferol mewn cwmnïau'r DU a thramor a fasnachir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Mae gan randdeiliaid ddiddordeb yn elw'r cwmni ac efallai y byddant fel arfer yn pleidleisio mewn cyfarfodydd cyfranddalwyr.

Gwerth Teg
Gwerth Teg yw'r pris a gaed i werthu ased neu dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad ar y dyddiad mesur.

Asedau Ariannol
Mae asedau ariannol yn arian parod, offerynnau ecwiti o fewn endid arall (e.e. cyfranddaliadau) neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu endid arall (e.e. dyledwyr) neu gyfenwid asedau ariannol neu rwymedigaethau ariannol o dan amodau a fydd o bosibl yn ffafriol (e.e. eitemau deilliadol)

Offerynnau Ariannol
Mae offeryn ariannol yn unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term 'offeryn ariannol' yn cwmpasu asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol ac mae'n cynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol symlaf fel symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau taladwy drwy fasnach a'r rhai cymhlethaf fel deilliadau a deilliadau sefydledig.

Rhwymedigaethau Ariannol
Asedau ariannol yw rhwymedigaethau cytundebol i ddosbarthu arian parod neu ased ariannol arall (e.e. credydwyr) neu gyfnewid asedau ariannol neu rwymedigaethau ariannol o dan amodau allai fod yn niweidiol o bosibl (e.e. deilliadau).

Gwarannau Llog Sefydlog / Bondiau
Buddsoddiadau, y rhan fwyaf ohonynt mewn stociau llywodraeth, sy'n gwarantu cyfradd llog. Mae gan fondiau confensiynol gyfraddau sefydlog, tra bod rhai a Gysylltir â Mynegai yn amrywio gyda chwyddiant. Maent yn cynrychioli benthyciadau i'w had-dalu ar ddyddiad yn y dyfodol, ac y gellir eu masnachu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn y cyfamser.

Rheolwr y Gronfa
Cronfa sy'n ymdrin â buddsoddiadau ar ran y gronfa bensiwn yn unol â mandad buddsoddi y cytunwyd arno.

Cronfa Cronfeydd
Cronfa gyfun sy'n buddsoddi mewn cronfeydd eraill cyfun. Gallant symud arian rhwng y cronfeydd gorau yn y diwydiant, ac felly'n anelu at leihau risg i randdeiliaid gyda mwy o amrywiaeth nag sy'n cael ei chynnig gan gronfa sengl.

Amhariad
Gostyngiad yng ngwerth ased sy'n is na'i werth a ddygwyd ymlaen yn y Fantolen. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau allai achosi gostyngiad mewn gwerth mae gostyngiadau cyffredinol mewn prisiau, a gostyngiad sylweddol ym mhris marchnad ased.

Mynegai
Cyfrifiad o bris cyfartalog cyfranddaliadau, bondiau neu asedau eraill mewn marchnad a benodir i ddarparu syniad o'r perfformiad cyfartalog a thueddiadau cyffredinol yn y farchnad.

ISS
Y Datganiad Strategaeth Buddsoddi y mae gofyn i bob cronfa CPLlL ei baratoi a pharhau i'w adolygu.

Rhwymedigaethau
Symiau sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu yn y dyfodol. Mae rhwymedigaethau cyfredol fel arfer yn daladwy ymhen blwyddyn o ddyddiad y Fantolen.

CPLlL
Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol, a lywodraethir gan reoliadau a gyhoeddir gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Perthnasedd
Mae gwybodaeth yn berthnasol os yw ei hepgor neu ei cham-ddatgan yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau a wna defnyddwyr ar sail y wybodaeth ariannol am awdurdod adrodd penodol.

Cronfa Bensiwn
Cronfa gyfun o ddidyniadau o dâl cyflogwr, cyfraniadau gan gyflogwyr ac incwm buddsoddi y telir buddion pensiwn ohonynt.

Pensiynwr
Aelod o'r cynllun a dderbyniodd bensiwn gan y Gronfa.

Cronfeydd Cyfun
Mae cerbydau buddsoddi cyfun yn dosbarthu unedau i ystod o fuddsoddwyr. Mae prisiau unedau'n symud fel ymateb i newidiadau yng ngwerth y portffolio gwaelodol, ac nid yw buddsoddwyr yn berchen yn uniongyrchol ar asedau yn y gronfa. Y prif fathau yw: ymddiriedolaethau unedol, cwmnïau buddsoddi penagored (OEICau), cerbydau sy'n gysylltiedig ag yswiriant ac ymddiriedolaethau buddsoddi.

Portffolio
Term cyfunol am yr holl fuddsoddiadau a ddelir mewn cronfa, marchnad neu sector. Mae portffolio ar wahân yn bortffolio o fuddsoddiadau o fath penodol a ddelir yn uniongyrchol yn enw'r buddsoddwr e.e. Bondiau Rhyngwladol neu farchnad benodol e.e. Ecwitïau'r DU, Ecwitïau'r Dwyrain Pell.

Addasiadau Cyfnod Blaenorol
Mae'r rhain yn addasiadau perthnasol sy'n berthnasol i gyfnod blaenorol sy'n codi o newidiadau'n unol â pholisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau sylfaenol.

Ecwiti Preifat
Buddsoddiadau a wneir gan reolwyr arbenigol ym mhob math o gwmnïoedd heb eu rhestri, yn hytrach na thrwy gyfranddaliadau y gellir eu masnachu'n gyhoeddus.

Darpariaethau
Symiau a neilltuwyd o ran rhwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o fynd iddynt, ond nad yw'r union swm na'r dyddiad setlo'n sicr.

Partïon Cysylltiedig
Partïon cysylltiedig yw’r Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol eraill, cyrff praeseptau ac ardollau, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, Aelodau Etholedig, yr holl uwch swyddogion o’r Cyfarwyddwr ac uwch. O ran unigolion a nodwyd fel partïon cysylltiedig, mae'r canlynol hefyd wedi'u rhagdybio i fod yn bartïon cysylltiedig:

- aelodau o’r teulu agos, neu o’r un cartref; a
- phartneriaethau, cwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau eraill lle mae’r unigolyn, neu aelod o’i deulu agos yn yr un cartref, â buddiant rheoli.

Enillion
Cyfanswm y cynnydd o fod â buddsoddiad, gan gynnwys incwm ac unrhyw gynnydd neu leihad o ran gwerth y farchnad. Fel arfer mynegir enillion dros gyfnodau sy’n hwy na blwyddyn fel enillion blynyddol cyfartalog.

Cyflogwyr y Cynllun
Awdurdodau lleol a chyrff a benodir yn y Rheoliadau CPLlL, y mae eu cyflogeion yn gymwys yn awtomataidd i fod yn aelodau’r Gronfa, a Chyrff Derbyn gan gynnwys cyrff gwirfoddol elusennol a rhai tebyg, gwneud gwaith cyhoeddus ei naws, y gall ei staff ddod yn aelodau o’r Gronfa drwy rinwedd cytundeb derbyn gyda’r Cyngor.

Corff Rhestredig
Sefydliad sydd â’r hawl i fod yn aelod o’r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol o dan reoliadau’r cynllun. Nid oes angen derbyn sefydliad o’r fath, oherwydd bod ei hawl i aelodaeth yn awtomataidd.

Ymddiriedolaeth Unedau
Cronfa fuddsoddi ar y cyd a gaiff ei phrisio, ei phrynu a'i gwerthu mewn unedau sy'n cynrychioli cymysgedd o'r gwarannau sy'n waelodol i'r gronfa.

Enillion / Colledion nas Gwireddwyd
Y cynnydd neu’r lleihad yng ngwerth y farchnad fuddsoddiadau a ddelir gan y gronfa ers y dyddiad y cawsant eu prynu. Sylwer: mae gwerthoedd drwy gydol y cyfrifon hyn yn cael eu cyflwyno wedi’u talgrynnu i niferoedd cyfan. Mae’n bosibl na fydd cyfansymiau mewn tablau a nodiadau ategol yn ymddangos fel eu bod yn castio, croes-gastio neu’n cydweddu’n union â’r datganiadau craidd neu dablau eraill oherwydd gwahaniaethau o ran talgrynnu.